Tŷ Afon, Ffordd Bedwas
Bedwas, Caerffili,
CF83 8WT

Tŷ Afon, Bedwas Road
Bedwas, Caerphilly
CF83 8WT

www.hefcw.ac.uk

Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru
Higher Education Funding Council for Wales

# Cylchlythyr | Circular

# Llesiant ac iechyd a chymorth ariannol ychwanegol i fyfyrwyr addysg uwch

| | | |
|---|---|---|
| **Dyddiad:** | 24 Ionawr 2023 | |
| **Cyfeirnod:** | W23/01HE | |
| **At:** | Benaethiaid sefydliadau addysg uwch yng Nghymru<br>Penaethiaid colegau addysg bellach a gyllidir yn uniongyrchol yng Nghymru | |
| **Ymateb erbyn:** | 24 Mawrth 2023, 29 Medi 2023 | |
| **Cyswllt:** | Enw: | Jane Johns, Amanda Phillips |
| | E-bost: | jane.johns@hefcw.ac.uk<br>amanda.phillips@hefcw.ac.uk |

Mae'r cylchlythyr hwn yn darparu gwybodaeth ynglŷn â sut y bydd CCAUC yn dyrannu £2.3m o gyllid ychwanegol.

Mae'r cyllid hwn yn 2022/23 ar gyfer darparwyr addysg uwch yng Nghymru i gefnogi llesiant ac iechyd gyda phwyslais penodol ar fesurau i fynd i'r afael ag effeithiau'r argyfwng costau byw.

Rhaid gwario'r cyllid hwn erbyn diwedd mis Gorffennaf 2023.

Os oes angen y ddogfen hon arnoch mewn fformat hygyrch arall, anfonwch e-bost i info@hefcw.ac.uk.

Noddir gan Lywodraeth Cymru
Sponsored by Welsh Government

Rydym yn croesawu gohebiaeth yn y Gymraeg neu yn Saesneg | We welcome correspondence in Welsh and in English
Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi | Corresponding in Welsh will not lead to delays
Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg | This document is also available in English

## Cyflwyniad

1. Mae'r cylchlythyr hwn yn darparu gwybodaeth ynglŷn â sut y bydd CCAUC yn dyrannu £2.3m o gyllid ychwanegol.

2. Mae'r cyllid hwn yn 2022/23 ar gyfer prifysgolion a cholegau addysg bellach a gyllidir yn uniongyrchol i gefnogi llesiant ac iechyd gyda phwyslais penodol ar fesurau i fynd i'r afael ag effeithiau'r argyfwng costau byw.

3. **Rhaid i'r cyllid hwn fod wedi'i neilltuo'n llawn erbyn diwedd mis Mawrth 2023 a'i wario'n llawn erbyn diwedd mis Gorffennaf 2023**. Caiff ein diffiniad ni o 'wedi'i neilltuo'n llawn' ei nodi yn yr adran Dulliau dyrannu a'r ffrâm amser ar gyfer gwariant isod. Darperir y cyllid hwn i gefnogi darpariaeth ar gyfer ymgeiswyr posibl i addysg uwch a myfyrwyr mewn addysg uwch, gan felly ddwyn budd i'r system ôl-16 ehangach. Lle'r ydym yn cyfeirio at ymgeiswyr a myfyrwyr, mae hyn yn cynnwys myfyrwyr ôl-radd ac ymgeiswyr i astudiaethau ôl-radd.

4. Mae'n ofynnol i CCAUC gyflwyno adroddiad i Lywodraeth Cymru ar y dyraniad hwn erbyn 31 Hydref 2023, felly rhaid cyflwyno adroddiadau monitro terfynol i ni erbyn **dydd Gwener 29 Medi 2023**.

## Cefndir

5. Cafodd CCAUC Lythyr Cylch Gwaith Diwygiedig 2022-23 oddi wrth Lywodraeth Cymru ar 21 Rhagfyr 2022. Mae atodiad y llythyr cylch gwaith diwygiedig yn darparu £2.3m ar gyfer llesiant ac iechyd, gyda phwyslais penodol ar fesurau i helpu i fynd i'r afael ag effeithiau'r codiadau cyflym diweddar mewn costau byw.

## Dyraniadau a'u diben

6. Mae atodiad llythyr cylch gwaith mis Rhagfyr yn cadarnhau bod y dyraniad ychwanegol hwn ar gyfer y blaenoriaethau a'r ffyrdd o weithio canlynol:
   - 'gwella gwasanaethau cyngor a gwybodaeth ariannol cynaliadwy mewn addysg uwch';
   - 'hyrwyddo gwasanaethau cyngor a gwybodaeth ariannol mewn addysg uwch, gan gynnwys i fyfyrwyr addysg uwch';
   - 'darparu cymorth ariannol i fyfyrwyr trwy ymestyn cyllid caledi neu adnoddau eraill i gefnogi'r rhai sy'n profi pwysau ariannol, sy'n cael effaith ar eu profiad fel myfyrwyr, eu lles, eu hiechyd, eu gallu i barhau i astudio a'u llwyddiant';
   - cefnogi ymgeiswyr posibl ac ymgeiswyr sy'n pontio i ddarpariaeth addysg uwch, yn ogystal â myfyrwyr presennol;
   - rhoi pwyslais penodol ar fesurau i helpu i ymdrin ag effeithiau'r codiadau mewn costau byw ar ymgeiswyr posibl a myfyrwyr o bob oed, yn enwedig y rhai sy'n pontio i addysg uwch;
   - darparu gwasanaethau yn Gymraeg;
   - cydweithio gydag Undebau Myfyrwyr i sicrhau bod y cymorth a roddir yn diwallu anghenion myfyrwyr; a
   - chynnwys myfyrwyr sydd â phrofiad o heriau ariannol yn y broses o adolygu'r cymorth a roddir.

7. Byddwn yn dyrannu'r cyllid hwn i brifysgolion a cholegau addysg bellach a gyllidir yn uniongyrchol i gefnogi gweithgarwch ychwanegol i gwrdd â'r disgwyliadau yn y llythyr cylch gwaith fel a amlinellir uchod.

8. Rydym yn cydnabod y gallai gweithgarwch 'untro' fod o fudd i fyfyrwyr cyfredol yn bennaf, ond dylai darparwyr addysg uwch ystyried sut y gall y cyllid hwn gael rhai effeithiau cynaliadwy a chefnogi darpariaeth llesiant, iechyd ac iechyd meddwl yn y tymor hwy. Gallai cynaliadwyedd tymor hwy gynnwys darparu gwybodaeth ac adnoddau ar y we. Rydym hefyd yn cydnabod bod darparwyr addysg uwch eisoes wedi cynyddu cymorth ariannol i fyfyrwyr i ymateb i anghenion sy'n deillio o'r codiadau cyflym, diweddar mewn costau byw.

9. Dylai prifysgolion ystyried alinio'r cyllid hwn a'i ganlyniadau â'u strategaethau a chynlluniau cyflawni presennol ar gyfer llesiant ac iechyd. Dylai'r holl ddarparwyr addysg uwch fabwysiadu dull sefydliad-cyfan o ddefnyddio'r cyllid hwn.

10. Rydym yn annog darparwyr addysg uwch yn gryf, gan weithio gyda'u Hundebau Myfyrwyr, i ystyried cefnogi llesiant ac iechyd, gan gynnwys darpariaeth ar gyfer iechyd meddwl, gyda phwyslais penodol ar fesurau i fynd i'r afael â'r codiadau cyflym diweddar mewn costau byw, gan gynnwys y canlynol ymhlith mesurau eraill:
    - diweddaru, gwella ac estyn gwasanaethau cyngor a gwybodaeth ac adnoddau ariannol a ddarperir wyneb-yn-wyneb ac ar y we ar gyfer ymgeiswyr posibl a myfyrwyr;
    - hyrwyddo a chyfeirio ymgeiswyr posibl a myfyrwyr at wasanaethau cyngor a gwybodaeth ariannol cyfoes sy'n berthnasol i addysg uwch, gan gynnwys gwybodaeth am gostau byw ac astudio, gwasanaethau cymorth y trydydd sector, Student Space, bwrsariaethau, ysgoloriaethau a chymorth arall;
    - cynyddu a/neu estyn argaeledd a'r meini prawf ar gyfer cymorth 'caledi' neu gymorth ariannol arall i fyfyrwyr;
    - sicrhau bod yr holl wybodaeth, cyngor a gwasanaethau ariannol ar gael ac yn hygyrch yn Gymraeg;
    - sicrhau bod myfyrwyr rhyngwladol yn ymwybodol o'r holl gymorth, gwybodaeth a chyngor ariannol sydd ar gael ac yn berthnasol iddynt;
    - sicrhau bod ymgeiswyr posibl a myfyrwyr â nodweddion gwarchodedig, gan gynnwys y rhai o gefndiroedd economaidd-gymdeithasol is, yn ymwybodol o'r holl gymorth, gwybodaeth a chyngor ariannol sydd ar gael ac yn berthnasol iddynt;
    - sicrhau bod ymgeiswyr posibl a myfyrwyr agored i niwed yn cael eu cefnogi â gwybodaeth, cyngor a chyllid, fel y bo'n briodol, gan gynnwys y rhai â phrofiad o fod mewn gofal, gofalwyr, y rhai sy'n profi cam-drin domestig a thrais rhywiol, a cheiswyr lloches a ffoaduriaid;
    - darparu gweithgareddau, adnoddau, gwasanaethau a/neu gynhyrchion cynhwysol am gost isel neu am ddim i gefnogi ymgeiswyr posibl a myfyrwyr sy'n profi pwysau ariannol, gan gynnwys lle gallai hyn effeithio ar lesiant, iechyd, iechyd meddwl, ymdeimlad o berthyn neu unigrwydd, profiad myfyrwyr, y gallu i barhau i astudio a llwyddiant;

- estyn, gwella neu ddarparu cymhorthdal ar gyfer cynhyrchion urddas mislif[1] a hylendid personol a/neu wasanaethau golchi dillad ar gyfer myfyrwyr lle bynnag y bônt wedi'u lleoli.

11. Rydym yn disgwyl i ddarparwyr addysg uwch ddefnyddio data a thystiolaeth i ddatblygu a thargedu adnoddau a blaenoriaethu grwpiau y gwyddys fod y codiadau cyflym diweddar mewn costau byw wedi effeithio'n arbennig arnynt. Dylai asesiadau o'r effaith ar gydraddoldeb gyfrannu at dystiolaeth darparwyr addysg uwch o dargedu camau gweithredu a blaenoriaethu ymhlith ymgeiswyr posibl a myfyrwyr.

12. Darperir gwybodaeth am ddyraniadau ar gyfer darparwyr addysg uwch yn **Atodiad A**. Mae'r dyraniad i Brifysgol De Cymru'n cynnwys dyraniad ar gyfer Coleg Cerdd a Drama Brenhinol Cymru.

13. Gan bod rhaid i'r cyllid hwn fod wedi'i neilltuo'n llawn erbyn 31 Mawrth 2023 a'i wario'n llawn erbyn 31 Gorffennaf 2023, ein barn ni yw bod recriwtio staff trwy brosesau teg a thryloyw'n debygol o effeithio ar gyflymder gweithgareddau i gefnogi myfyrwyr. Rydym yn annog darparwyr addysg uwch i archwilio sut y gall gweithgareddau sy'n gyson â'r cylch gwaith gael eu cyflawni'n gyflym ac o fewn modelau staffio presennol.

## Dulliau dyrannu a'r ffrâm amser ar gyfer gwariant

14. Byddwn yn gwneud y dyraniad hwn i ddarparwyr addysg uwch yn seiliedig ar gyfrif pennau'r holl fyfyrwyr a gymerwyd o gofnod myfyrwyr HESA 2020/21, ni waeth o ba wlad y maent yn hanu, na beth yw eu dull na lefel astudio. Mae'r dyraniad hwn yn defnyddio'r un sail â'r dyraniad yn W22/29HE: Llesiant ac iechyd: Cyllid ar gyfer strategaethau yn 2022/23 a gofynion monitro. Cafodd y data ar gyfer prifysgolion ei wirio ar gyfer dyraniadau W22/29HE. Yn atodiad y llythyr cylch gwaith ychwanegol, mae Llywodraeth Cymru'n gofyn i ni ystyried sut 'mae manteision y mesurau a gefnogir [trwy'r cyllid yma] o fudd i ddysgwyr a myfyrwyr ar draws y system ôl-16'. Felly, rydym yn darparu cyllid ar gyfer colegau addysg bellach a gyllidir yn uniongyrchol.

15. Rhaid i brifysgolion sicrhau bod eu myfyrwyr mewn darparwyr addysg uwch sy'n bartneriaid yn cael eu cynnwys mewn darpariaeth, ac yn cael budd o ddarpariaeth, a gefnogir gan y cyllid hwn.

16. I ddyrannu'r cyllid hwn yn gyflym, er mwyn galluogi darparwyr addysg uwch i ymateb yn gyflym i anghenion costau byw myfyrwyr, fe ysgrifennom ni at Is-gangellorion a Prifysgolion Cymru ar 22 Rhagfyr 2022, cyn i ni gael y cyllid gan Lywodraeth Cymru, i'w hysbysu ynghylch y cyllid hwn a'n dull dyrannu bwriadedig. Nid ydym wedi cael unrhyw wrthwynebiadau i'r fethodoleg gyllido.

17. Mae atodiad y llythyr cylch gwaith yn cadarnhau bod rhaid i ddyraniadau fod wedi'u neilltuo erbyn 31 Mawrth 2023. Rydym yn disgwyl i'r cyllid gael ei wario'n

[1] Fe wnaethom ddyrannu cyllid yn flaenorol i gefnogi urddas mislif yn 2020 trwy gylchlythyr W20/08HE: Llesiant ac iechyd: Gwella polisïau ac arferion diogelu a hybu urddas mislif mewn AU

llawn erbyn 31 Gorffennaf 2023 gan bod rhaid i CCAUC gyflwyno adroddiad i Lywodraeth Cymru ar wariant erbyn 31 Hydref 2023.

18. Mae'n rhaid i gyfanswm dyraniad darparwyr addysg uwch fod wedi'i neilltuo'n llawn ac yn anad-daladwy erbyn dydd Gwener 31 Mawrth 2023. Rydym yn defnyddio 'wedi'i neilltuo'n llawn' gan olygu y dylai cyllid gael ei ddyrannu fel bod canlyniadau wedi'u cytuno a bod y cyllid yn anad-daladwy erbyn diwedd mis Mawrth 2023. Enghraifft o 'wedi'i neilltuo'n llawn' yn yr achos hwn yw lle caiff gweithgareddau eu cyflawni a gwasanaethau eu darparu erbyn 31 Mawrth, neu y bydd cymorth ariannol a darpariaeth yn parhau i gael eu cyflawni hyd at ddiwedd mis Gorffennaf 2023, ond bod anfonebau heb gael eu cyflwyno i gael eu talu eto. Rhaid i'r holl wariant gael ei dalu'n llawn erbyn 31 Gorffennaf 2023.

## Rhyddhau ac ailddyrannu cyllid

19. Bydd y cyllid hwn yn cael ei ryddhau mewn un gyfran ar ddiwedd mis Ionawr 2023, fel a nodir yn yr adran Amserlen isod.

20. Rydym yn cadw'r hawl i adfachu ac ailddyrannu unrhyw gyllid na ragwelir yn realistig y bydd wedi'i neilltuo'n llawn erbyn diwedd mis Mawrth 2023. Rydym yn cadw'r hawl i adfachu cyllid lle nad yw gweithgarwch monitro'n foddhaol i roi cyfrif am ddefnyddio'r cyllid neu ei ddefnyddio at y dibenion a nodir yn y cylchlythyr hwn.

## Monitro

21. Byddwn yn monitro'r modd y caiff y cyllid hwn ei wario a'i ddefnyddio i oleuo ein hadroddiad i Lywodraeth Cymru.

22. Bydd templed monitro'n cael ei ddarparu yn gynnar ym mis Chwefror 2023. Bydd monitro'n cynnwys darparu'r canlynol ar ein cyfer:
    - astudiaethau achos digonol i ddangos ehangder gweithgareddau, gwasanaethau ac adnoddau a ddarparwyd;
    - gwybodaeth foddhaol i'n galluogi i ddeall sut y mae asesu'r effaith yn barhaus wedi dylanwadu ar ganlyniadau a gallu ymgeiswyr posibl a myfyrwyr i gael budd o'r ddarpariaeth;
    - dolenni i wefannau sy'n cynnwys gwybodaeth ac adnoddau ariannol Cymraeg a Saesneg;
    - cadarnhad y bu cydweithio effeithiol gydag Undebau Myfyrwyr, myfyrwyr â phrofiad o heriau ariannol, a myfyrwyr o ystod o gefndiroedd a bod y rhain wedi cael eu cynnwys yn effeithiol;
    - crynodeb o adnoddau, gwybodaeth a darpariaeth sy'n gynaliadwy.

23. Lle nad yw darparwyr addysg uwch yn gallu cadarnhau wrthym ni erbyn **24 Mawrth 2023** eu bod wedi neilltuo'u dyraniad yn llawn, rydym yn cadw'r hawl i ailddyrannu cyllid heb ei neilltuo ar draws y sector i sicrhau ei fod yn cael ei fuddsoddi i gefnogi llesiant ac iechyd myfyrwyr.

**Amserlen**

| Camau Gweithredu | Dyddiad |
|---|---|
| CCAUC yn cael atodiad y llythyr cylch gwaith oddi wrth Lywodraeth Cymru | 21 Rhagfyr 2022 |
| CCAUC wedi cadarnhau wrth brifysgolion y byddai cyllid ar gael pan fyddai'n cael ei ryddhau i ni, yn ogystal â'r fethodoleg gyllido | 22 Rhagfyr 2022 |
| CCAUC i ddyrannu'r cyllid | 23 Ionawr 2023 |
| Cyhoeddi'r templed monitro | Chwefror 2023 |
| Darparwyr addysg uwch i gadarnhau wrth CCAUC bod y cyllid wedi'i neilltuo'n llawn | 24 Mawrth 2023 |
| Darparwyr addysg uwch i gyflwyno gwybodaeth fonitro derfynol i CCAUC, gan gynnwys astudiaethau achos | 29 Medi 2023 |
| CCAUC i gyflwyno adroddiad i Lywodraeth Cymru ar y modd y defnyddiwyd y cyllid | 31 Hydref 2023 |

**Rhagor o wybodaeth / ymatebion i**

24. I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â jane.johns@hefcw.ac.uk. Cyflwynwch yr wybodaeth fonitro i amanda.phillips@hefcw.ac.uk.

**Asesu effaith ein polisïau**

25. Rydym wedi cychwyn asesiad o'r effaith i helpu i ddiogelu rhag gwahaniaethu a hybu cydraddoldeb. Fe wnaethom ystyried effaith polisïau ar y Gymraeg, a darpariaeth cyfrwng Cymraeg, o fewn y sector AU yng Nghymru ac effeithiau posibl tuag at y nodau yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 gan gynnwys ein Hamcanion Llesiant. Cysylltwch ag equality@hefcw.ac.uk i gael rhagor o wybodaeth am asesiadau o'r effaith. Rydym yn annog darparwyr addysg uwch ac Undebau Myfyrwyr yn gryf i asesu effaith eu dyraniadau.

26. Mae canfyddiadau cychwynnol ein hasesiad o'r effaith wedi dod i'r casgliad y dylai'r dyraniad hwn wneud cyfraniad cadarnhaol tuag at gynyddu adnoddau ar gyfer llesiant ac iechyd, gan gynnwys iechyd meddwl a chymorth i fyfyrwyr. Mae'r dyraniad yn gyson â blaenoriaethau presennol CCAUC a darparwyr mewn perthynas â llesiant ac iechyd, gan gynnwys iechyd meddwl a chymorth i fyfyrwyr. Gallai defnyddio'r cyllid hwn gael effeithiau cadarnhaol penodol ar y canlynol ymhlith ymgeiswyr a myfyrwyr eraill:
    - cefnogi menywod yr effeithiwyd arnynt gan drais, cam-drin domestig a thrais rhywiol, gan gydnabod y gallai fod effaith debyg ar bobl eraill sydd wedi cael y profiadau hyn;
    - cefnogi pobl o gymunedau ethnig lleiafrifol, pobl ag anableddau, myfyrwyr o gefndiroedd economaidd-gymdeithasol is, pobl â phrofiad o fod mewn gofal neu gyfrifoldebau gofalu, gan gynnwys ymgeiswyr a myfyrwyr sy'n rhieni, myfyrwyr rhyngwladol;
    - gwella ac estyn gwybodaeth, cyngor, adnoddau a chymorth trwy gyfrwng y Gymraeg.

27. Ni chanfuwyd unrhyw effeithiau negyddol o ganlyniad i’r dyraniad hwn ar hyn o bryd. Mae ein hasesiad cychwynnol o’r effaith yn cadarnhau bod ein cylchlythyr cyfarwyddyd gyda’r dyraniad hwn yn rhoi anogaeth i gynnwys a chydweithio gydag Undebau Myfyrwyr, myfyrwyr â phrofiad o bwysau ariannol a myfyrwyr ag ystod o gefndiroedd/profiad, yn unol â’r pum ffordd o weithio yn Neddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol. Rydym yn rhoi anogaeth i integreiddio trwy argymell alinio â strategaethau a chynlluniau cyflawni ar gyfer llesiant ac iechyd. Byddwn yn parhau i asesu effaith y cyllid hwn gan gynnwys trwy fonitro a chyflwyno adroddiad i Lywodraeth Cymru.

**Atodiad A**

**Llesiant ac iechyd, dyraniad ychwanegol, 2022/23**

| Darparwr | Cyfrif Pennau | Cyllid |
|---|---|---|
| Prifysgol De Cymru | 22,930 | £369,374 |
| Prifysgol Aberystwyth | 7,425 | £119,634 |
| Prifysgol Bangor | 9,695 | £156,220 |
| Prifysgol Caerdydd | 33,195 | £534,793 |
| Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant | 14,635 | £235,772 |
| Prifysgol Abertawe | 21,420 | £345,048 |
| Prifysgol Metropolitan Caerdydd | 11,390 | £183,527 |
| Prifysgol Glyndŵr Wrecsam | 6,640 | £106,955 |
| Y Brifysgol Agored yng Nghymru | 14,130 | £227,637 |
| Grŵp Llandrillo Menai | 1,050 | £16,883 |
| Grŵp Colegau NPTC | 195 | £3,141 |
| Coleg Gŵyr Abertawe | 65 | £1,015 |
| **Cyfanswm** | **142,765** | **£2,300,000** |

Nodiadau:

- Mae'r dyraniad i Brifysgol De Cymru'n cynnwys dyraniad o £13,420 i Goleg Cerdd a Drama Brenhinol Cymru.
- Daw'r data o gofnod myfyrwyr HESA 2020/21, mae data o brifysgolion wedi cael ei wirio, nid yw data sy'n gysylltiedig â cholegau addysg bellach wedi cael ei wirio.
- Mae poblogaeth gofrestru safonol HESA wedi cael ei lleihau i gyfrif pennau.
- Mae pob dull a lefel astudio wedi cael eu cymryd i ystyriaeth.
- Mae'r holl wledydd y mae myfyrwyr yn hanu ohonynt wedi cael eu hystyried.
- Mae'r cyfrif pennau myfyrwyr wedi cael ei dalgrynnu i'r pump agosaf.